Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Pennod 31 o'r Cod Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft

## Dogfen ymgynghori - Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl

Rhowch eich barn erbyn i ni erbyn **29 Hydref 2020**



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn o: *Cynrychiolwyr ar gyfer pobl ifanc, a rhieni plant, nad oes ganddynt alluedd meddyliol.* **Ymgynghoriad ar Bennod 31 o'r Cod ADY drafft**.

**Medi 2020** **WG41272**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen hon

Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae’r geiriau a beth maen nhw’n feddwl yn hawdd i’w darllen a’u deall.



Efallai y byddwch chi angen cefnogaeth i ddarllen a deall y ddogfen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i’ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i’w deall. Maen nhw wedi cael eu hesbonio mewn blwch o dan y gair.




Os yw’r gair yn cael ei ddefnyddio eto mewn ysgrifen glas arferol. Gallwch wirio beth mae’r geiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 12**.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Cyfeiriad:** Cangen Trawsnewid ADY
Adran Cefnogaeth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

**E-bost:** SENreforms@gov.wales

**Twitter:** @LlC_Addysg

**Facebook:** Facebook/AddysgCymru

# Cynnwys


**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon............................................................2**

**Cyflwyniad...................................................................................4**

**Pennod 31 o'r Cod ADY..............................................................6**

Ein syniadau ar gyfer Pennod 31..................................................7

**Beth sy'n digwydd nesaf............................................................11**

**Geiriau anodd............................................................................12**



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cyflwyniad



Yn 2019 fe wnaethon ni ofyn i chi beth oeddech chi'n ei feddwl o'n syniadau ar gyfer **Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol**.



Mae **Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn cael ei adnabod fel **ADY**. Mae plant a phobl ifanc gyda **ADY** angen cymorth ychwanegol i ddysgu. Gallai hyn fod oherwydd:

- Mae ganddyn nhw anhawster neu anabledd sy'n golygu eu bod nhw angen cymorth ychwanegol.
- Maen nhw'n ei chael hi'n fwy anodd dysgu na phlant a phobl ifanc eraill yr un oed.
- Mae ganddyn nhw anabledd sy'n golygu nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r ysgol neu'r coleg lleol.




Mae'r **Cod ADY** yn rhoi rheolau a chyngor i helpu pawb sy'n cefnogi plant gyda **ADY**. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud beth mae'r **cod** yn ei ddweud.



Nod y Cod ADY yw gwneud yn siŵr bod yr holl blant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau i wneud yn dda mewn bywyd.



Gallwch ddarllen mwy am y gwaith hwn yma: https://llyw.cymru/cod-anghenion-dysgu-ychwanegol-drafft



Yn 2019 wnaethon ni ddim gofyn i bobl beth oedden nhw'n ei feddwl am **Bennod 31** o'r Cod ADY. Oherwydd doedd o ddim yn barod.




Mae **Pennod 31** yn barod erbyn hyn a byddem yn hoffi gwybod beth rydych chi'n feddwl ohono.



Mae'r ddogfen hon am **Bennod 31** y Cod ADY. Darllenwch y ddogfen hon. Yna dywedwch wrthym ni beth rydych chi'n ei feddwl drwy lenwi'r **ffurflen ymateb**.




Anfonwch eich ffurflen ymateb atom ni erbyn **29 Hydref 2020** os gwelwch yn dda.

# Pennod 31 o'r Cod ADY

Mae **Pennod 31** yn ymwneud â beth ddylai ddigwydd pan nad oes gan:



- person ifanc rhwng 16 a 25 mlwydd oed



- neu rieni plentyn rhwng 0 a 15 mlwydd oed

**alluedd meddyliol**.



Mae **galluedd meddyliol** yn golygu gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun am rywbeth ar yr adeg iawn.

Os nad oes gennych chi **alluedd meddyliol**, mae'n golygu nad ydych chi'n gallu gwneud penderfyniadau penodol.



Mae'n bwysig bod pobl ifanc a rhieni yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau. Neu fywyd eu plentyn.



Dyma ein syniadau i gefnogi pobl ifanc a rhieni pan nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau drostyn nhw eu hunain.

# Ein syniadau ar gyfer Pennod 31



Dylai pobl ifanc a rhieni nad oes ganddyn nhw alluedd meddyliol gael **cynrychiolydd**.



Mae **cynrychiolydd** yn berson gyda'r holl wybodaeth am benderfyniad sydd angen cael ei wneud.

Byddan nhw'n helpu i wneud penderfyniad ac yn sefyll dros hawliau'r person ifanc neu riant.



Gall cynrychiolydd fod yn rywun sydd wedi cael ei ddewis gan y Llys yn barod i wneud penderfyniadau i'r person.



Os nad oes gan berson ifanc gynrychiolydd wedi'i ddewis gan y Llys, gallai ei **rhiant** fod yn gynrychiolydd iddyn nhw.



Rydyn ni'n meddwl y byddai hyn yn gweithio'n dda oherwydd mae rhiant:



- yn debygol o ddeall ADY eu plentyn



- ac eisiau gwneud y penderfyniadau gorau iddyn nhw.



Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r person ifanc neu riant eu helpu i gael cynrychiolydd, os ydyn nhw angen un.



Dylai'r cynrychiolydd gefnogi hawliau, meddyliau a theimladau'r person ifanc neu riant bob amser.



Gallcynrychiolydd wneud y canlynol:

- gwneud penderfyniadau i berson ifanc neu rhiant plentyn




- mynd i gyfarfodydd a chymryd rhan mewn ysgrifennu cynlluniau ar gyfer y person ifanc neu'r plentyn



- delio gyda ffurflenni a gwaith papur arall am y person ifanc neu'r plentyn



- gwneud **apêl** i'r **Tribiwnlys Addysg**. Mae hyn yn golygu gofyn i banel arbennig edrych ar benderfyniad eto, am nad ydych chi'n cytuno gyda'r penderfyniad.




Yn y Cod ADY byddwn yn siarad am y **person ifanc a rhiant y plentyn**.



Pan fyddwn ni'n dweud **person ifanc** yn y Cod ADY rydyn ni eisiau iddo olygu:

- cynrychiolydd neu



- person ifanc **a'u** cynrychiolydd.



Pan fyddwn ni'n dweud **rhiant** yn y Cod ADY rydyn ni eisiau iddo olygu:

- cynrychiolydd neu



- rhiant **a'u** cynrychiolydd.

Rydyn ni eisiau i hyn fod yr un fath yn:




- **Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**




- a **Deddf Cydraddoldeb 2010** - lle mae'n siarad am bethau sy'n ymwneud gyda'r Cod ADY.

# Beth sy’n digwydd nesaf



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am hyn.



Felly, atebwch y cwestiynau ar y **ffurflen ymateb** os gwelwch yn dda.



Byddwn yn defnyddio beth rydych chi’n ei ddweud wrthym ni i wneud penderfyniadau am beth ddylai fod yn y Cod ADY.




Rydyn ni eisiau i’r rheolau ADY newydd ddechrau o fis **Medi 2021**.




Tan hynny, bydd ysgolion yn dilyn y rheolau sydd gennym ni’n barod ar gyfer rhieni a phobl ifanc nad oes ganddyn nhw alluedd meddyliol.

# Geiriau anodd

## Anghenion Dysgu Ychwanegol neu ADY

Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei adnabod fel ADY. Mae plant a phobl ifanc gyda ADY angen cymorth ychwanegol i ddysgu. Gallai hyn fod oherwydd:

- Mae ganddyn nhw anhawster neu anabledd sy'n golygu eu bod nhw angen cymorth ychwanegol.
- Maen nhw'n ei chael hi'n fwy anodd dysgu na phlant a phobl ifanc eraill yr un oed.
- Mae ganddyn nhw anabledd sy'n golygu nad ydyn nhw'n gallu defnyddio'r ysgol neu'r coleg lleol.

## Cod ADY

Mae'r Cod ADY yn rhoi rheolau a chyngor i helpu pawb sy'n cefnogi plant gyda ADY. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud beth mae'r cod yn ei ddweud.

## Galluedd Meddyliol

Mae galluedd meddyliol yn golygu gallu gwneud eich penderfyniadau eich hun am rywbeth ar yr adeg iawn. Os nad oes gennych chi alluedd meddyliol, mae'n golygu nad ydych chi'n gallu gwneud penderfyniadau penodol.

## Cynrychiolydd

Mae cynrychiolydd yn berson gyda'r holl wybodaeth am benderfyniad sydd angen cael ei wneud. Byddan nhw'n helpu i wneud penderfyniad ac yn sefyll dros hawliau'r person ifanc neu riant.